Nifer y gliniaduron
12 Mawrth 2014

Yn dilyn fy e-bost dyddiedig 6 Mawrth 2014, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 4 Mawrth, sef:

A allech roi gwybod i mi am gyfanswm y gliniaduron sy'n eiddo i'ch sefydliad a oedd yn gofrestredig i a/neu ym meddiant aelodau staff (a gyflogir yn uniongyrchol gan eich sefydliad neu fel arall) ar y ddau ddyddiad canlynol:

a) 1 Mai 2010 (neu'r dyddiad agosaf sydd ar gael – nodwch), a

b) 1 Mai 2013 (neu'r dyddiad agosaf sydd ar gael – nodwch).

Nid ydym yn cadw cofnodion am gyfanswm y gliniaduron a ddyrannwyd i staff ar ddyddiadau penodol yn y gorffennol. Cyfanswm y gliniaduron a ddyrennir i staff / contractwyr ar hyn o bryd yw 278. Mae nifer y gliniaduron a ddyrannwyd wedi aros yn gymharol sefydlog rhwng mis Mai 2010 a heddiw.

Nid wyf wedi defnyddio unrhyw esemptiadau, ond os bydd gennych unrhyw gŵyn am y ffordd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, anfonwch e-bost ataf neu ysgrifennwch ataf.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Yn gywir

Ian Phillips